Polisi Anabledd a Neilltuaeth Hyfforddiant SNAP Cymru

1 Diffiniad

Mae SNAP Cymru yn ymroddedig i ddarparu'r cyfle i ddysgwyr gael dysgu. Rhaid i ddarpariaeth hyfforddiant SNAP Cymru fod yn deg ac yn hafal er mwyn sicrhau lle bynnag bo'n bosib fod yr holl ddysgwyr â'r sgiliau, gwybodaeth a'r ddealltwriaeth perthnasol yn cael cydnabyddiaeth i'w cyflawniad'. Mae'r cwmni'n hyrwyddo unigoledd ei holl ddysgwyr, beth bynnag fo'u hil, ethnigrwydd neu wreiddiau cenedlaethol, oedran, crefydd neu gredoau, anabledd, rhyw neu rywioldeb.

2 Cynulleidfa

2.1 Y gynulleidfa y bwriedir y ddogfen hon ar ei chyfer yw:

- Pob tiwtor/dysgwr sy'n ymgymryd â hyfforddiant SNAP Cymru.

2.2 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i:

- unedau a gynhwysir yn ein Fframwaith AGORED, gan gynnwys yr holl ddeunyddiau sydd eu hangen
- deunyddiau cyhoeddusrwydd a marchnata
- digwyddiadau hyfforddi mewnol ac allanol a drefnir gan a/neu ar ran SNAP Cymru.

3 Beth yw Anabledd?

Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DDA) 1995 yn datgan fod gan rywun "anabledd os oes ganddo/i nam corfforol neu feddyliol ag effaith sylweddol a thymor hir ar ei (g)allu i wneud gweithgareddau o ddydd i ddydd". Gall nam corfforol neu feddyliol gynnwys nam synhwyrol (megis y sawl sy'n effeithio'r golwg a'r clyw a dysg) ac anawsterau dysgu. Mae'r diffiniad hefyd yn ymdrin â rhai cyflyrau meddygol pan fo ganddynt effaith tymor hir sylweddol ar fywyd beunyddiol yr unigolyn.

Dan Ran 4 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (a wellwyd gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001), rhaid i ddarparwyr addysg beidio â thrin myfyrwyr ag anableddau'n llai ffafriol heb gyfiawnhad, a rhaid iddynt wneud addasiadau rhesymol er mwyn sicrhau nad ydynt dan anfantais o'u cymharu â'u cyfoedion. Yn hytrach, rhaid iddynt gynllunio'n strategol er mwyn cynyddu mynediad i'r cwricwlwm.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb Anabledd (Rhan 5A o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, a fewnosodwyd gan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005) yn gosod ar ysgwyddau pob awdurdod cyhoeddus (gan gynnwys darparwyr addysg) ddyletswydd gyffredinol, wrth gwblhau eu gwaith, i ystyried yr angen i:

- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl ag anableddau a phobl eraill;
- dileu neilltuaeth sy'n anghyfreithlon dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (a newidiwyd o ganlyniad);
- dileu aflonyddwch ar bobl ag anableddau sy'n berthnasol i'w hanabledd;
- hyrwyddo agweddau positif tuag at bobl ag anableddau;
- annog cyfranogiad gan bobl ag anableddau mewn bywyd cyhoeddus;
- cymryd camau i fodloni anghenion pobl ag anableddau, hyd yn oed os yw hyn yn gofyn am driniaeth fwy ffafriol.

Yn ogystal â'r ddyletswydd gyffredinol, mae'r rheoliadau a luniwyd dan Ran 5A o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn nodi dyletswydd benodol ar rai awdurdodau cyhoeddus sy'n gofyn eu bod yn arddangos sut y maent yn bodloni'r ddyletswydd gyffredinol.

Prif ofynion y ddyletswydd benodol yw:

- paratoi a chyhoeddi polisi cydraddoldeb anabledd;
- cynnwys pobl ag anableddau yn natblygiad polisi;
- gweithredu'r cynllun;
- Adrodd yn ôl arno.

Pan fo gan berson ifanc anghenion addysgol arbennig, fe fydd SNAP Cymru:

- yn gwneud ei orau i sicrhau bod y ddarpariaeth angenrheidiol yn cael ei gwneud ar gyfer unrhyw ddysgwyr a chanddo/i anghenion addysgol arbennig

4 Arddangos eich ymrwymiad i'n dysgwyr

Mae SNAP Cymru yn ymroddedig i gefnogi gofynion yr holl ddysgwyr. Bydd SNAP Cymru yn sicrhau bod cyfle cyfartal yn cael ei hyrwyddo o ran mynediad i'n cyrsiau a'n digwyddiadau hyfforddi, a bod neilltuaeth annheg neu anghyfreithlon, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn cael ei ddileu.

4.1 Bydd SNAP Cymru yn sicrhau o ran Marchnata a Mynediad i Addysg:

- y caiff gweithdrefnau cyhoeddusrwydd a recriwtio dysgwyr eu dylunion i annog ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned a chan bobl o bob gallu.
- eu bod yn gwneud ymdrech bendant i ehangu drwy bartneriaethau ac ymrwymiad â grwpiau cymunedol lleol.
- bod gweithdrefnau mynediad yn hawdd i'w defnyddio ac yn osgoi rhwystrau diangen i fynediad ar gyfer darpar ddysgwyr.
- eu bod yn parhau i nodi anghenion dysgu ac ymateb iddynt o fewn y gymuned, ac annog rhagor o gyfranogiad gan unigolion a chanddynt

anableddau, y sawl nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol, y sawl dan anfantais neu'r sawl sy'n cael eu cau allan

4.3 Bydd SNAP Cymru yn sicrhau yn yr Amgylchfyd Dysgu eu bod yn**:**

- ymroddedig i ddatblygu amgylcheddau dysgu sy'n groesawgar a diogel i'r holl ddysgwyr.
- datblygu eu cyfleusterau a'u llety er mwyn gwella mynediad i bobl a chanddynt anawsterau dysgu a/neu anableddau; gan geisio sicrhau bod yr holl adeiladau, cyfleusterau, offer a deunyddiau'n briodol a bod llety ac addasiadau i'r dysgu'n cael eu gwneud ymlaen llaw ac er mwyn paratoi ar gyfer gofynion y dysgwyr.

- 4.4 Bydd SNAP Cymru yn sicrhau o ran Dysgu ac Addysgu:

- bod y cwrs yn rhydd rhag rhagfarn, ystrydebau a neilltuaeth.
- o fewn yr adnoddau sydd ar gael, bod dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu yn derbyn cefnogaeth ychwanegol briodol er mwyn bodloni anghenion dysgwyr unigol.
- bod dysgu, addysgu ac asesu'n hygyrch drwy ddarparu deunyddiau, unedau wedi'u haddasu, papurau cwestiynau, taflenni gwaith priodol ac ati ac unrhyw gefnogaeth ychwanegol addas lle bo'i hangen, amser ychwanegol i gwblhau tasgau a thasgau asesu priodol
- y bydd staff a gwirfoddolwyr hyfforddi'n annog dysgwyr i archwilio materion yn ymwneud â chyfle cyfartal ac amrywiaeth lle mae'r fath gyfle'n bodoli o fewn y cwricwlwm.
- bod codi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan o'r rhaglen gynefino gyffredinol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr newydd.
- eu body n adolygu dyluniad a chyflwyniad y cwrs yn rheolaidd er mwyn bodloni amryw anghenion a dulliau dysgu'r dysgwyr ac er mwyn gwella mynediad i addysg.
- bod barn a chanfyddiadau dysgwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o adolygu'r cwricwlwm a hunanasesu, a hefyd yn natblygiad y cwricwlwm.

Cyflwyno

4.1 Fel rhan o'r broses o weithredu'r polisi hwn, bydd hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o gyfle cyfartal a neilltuaeth ar sail anableddau'n rhan hanfodol o gynefino staff, hyfforddiant mewn swydd a datblygiadau parhaus.

- 4.2 Mae gan bob cyflogwr gyfrifoldeb i hyrwyddo'r polisi a glynnu wrtho. Ni ddylid darllen y polisi hwn ar ei ben ei hun, eithr wedi'i groesgyfeirio â'r holl bolisïau a gweithdrefnau cymeradwy cysylltiedig. Mae gan SNAP ystod o bolisïau ychwanegol i gefnogi egwyddorion y polisi hwn, a rhai o'r rhain yw:

- Polisi Mynediad i Asesiad Teg a Gweithdrefn Apeliadau yn erbyn Asesiadau
- Polisi Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth
- Gweithdrefn Cwynion
- Polisi Diogelu Oedolion a Phlant Diniwed

- Mae'r polisïau hyn ar gael yn yr Uned Hyfforddi ac ar wefan SNAP Cymru

4.5 Er mwyn gwneud y polisi hwn yn un llwyr effeithiol:

- byddwn yn sicrhau bod yr holl staff a'r gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r polisi hwn
- byddwn yn darparu hyfforddiant a chanllawiau, yn enwedig i staff a gwirfoddolwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deal y polisi hwn a'u cyfrifoldebau cyfreithiol.
- Er mwyn gweithredu'r polisi hwn yn llwyddiannus ac yn llawn, bydd ymwybyddiaeth o gyfle cyfartal ac amrywiaeth ac ymwybyddiaeth o Neilltuaeth ar sail Anabledd yn rhan hanfodol o raglen gynefino staff, hyfforddiant mewn swydd a datblygiad proffesiynol parhaus staff.
- Bydd cynrychiolwyr dysgwyr ag anableddau ynghlwm wrth ddatblygiad unedau achrededig hyfforddiant/AGORED er mwyn sicrhau bod rhwystrau i fynediad neu gyfranogiad yn cael eu dymchwel

- Monitro

Bydd SNAP Cymru yn adolygu'r polisi'n flynyddol ac yn ei adolygu pan fo angen mewn ymateb i adborth gan ddysgwyr a chyfranddalwyr, newidiadau o ran arferion, gofynion y Corff Dyfarnu neu asiantaethau allanol neu newidiadau deddfwriaethol. Bydd yr arolwg yn sicrhau bod gweithdrefnau'n parhau i fod yn gyson â'r meini prawf rheoliadol a'u bod yn cael eu cymhwyso'n gywir ac mewn ffordd deg.

Awdur y Polisi: Amanda Daniels
Eiliwyd gan: Caroline Rawson
Cymeradwywyd: Mai 2010
Wedia ei adolygu: Mai 2015
Dyddiad adolygu: Mai 2018